"Profwch bob peth; deliwch yr hyn sydd dda"—Paul.

YR

YMOFYNYDD;

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] MAI, 1890. [RHIF 29.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Y Parchedig John James, Gellionen	97
Crefydd	100
Can i'r Gethlydd	102
Pregethu Crist, a Christ yn unig	102
Y Cyrddau Chwarterol	104
Ystyriwch y Lili	108
Mesur y Degwm	109
Nodynau Gwasgarog	110
Ymweliad a'r Amerig	115
Manion a Hanesion	118
Marwgofion	119

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:
ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, COMMERCIAL PLACE.

AT EIN DERBYNWYR.

Taliadau :—J.J., Quaker's Yard ; D.H., Pontsticyll ; W.D., Cribin ; E.P., Glyncorrwg ; J.T., Whitland ; J.J., Tonypandy ; J.E., New Castle Emlyn ; R.G., Cwmavon ; T.D., Dolbwba ; D.R., Aberfan ; Miss J., Wern ; D.T., Ochryrhos ; D.T., Treorci ; J.T., Llanarth ; W.J., Pitcot Cottage ; O.J., Abernantllan.

☞ Anfoner pob gohebiaeth at y Golygydd,

J. HATHREN DAVIES,
CEFNCOED,
Nr. MERTHYR TYDVIL.

☞ Tyner pob *Post Office Order* ar y *Cefn* Post Office, ac yn enw J. H. Davies, Editor, &c. Cofier, fodd bynag, fod y *Postal Orders* weithiau yn rhatach nâ'r *Post Office Orders*. Fe ddylid bob amser defnyddio *Postal Orders* yn lle *stamps* mor bell ag y gellir.

Telerau :—Pris 3c., trwy'r post, 3½c. ; ar dri rhifyn a throsodd telir y cludiad.

THE GRAMMAR SCHOOL, LLANYBYTHER.

HEAD MASTER :—REV. D. EVANS.

For further particulars, apply to Rev. D. Evans, Llanwnen, Llanybyther, R.S.O.

GWEITHIAU CHANNING.

GELLIR cael yr argraffiad rhad o'r uchod, yn rhad trwy y *post*, am 9c. yr un oddiwrth D. J. JONES,

Mount Pleasant Garden, Aberdare.

LLAWLYFR YR UNDODWR, Pris 6ch.

Anfoner at D. Evans, Llanwnen, Llanybyther.

YR

YMOFYNYDD.

Cyfres Newydd.] MAI, 1890. [Rhif 29.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

Y PARCHEDIG JOHN JAMES, GELLIONEN.

1777—1864.

Nid wyf yn gwybod fod coffadwriaeth y gwr da hwn wedi cael y sylw y mae yn haeddu ar dudalenau Yr Ymofynydd, ac os caf genad y Golygydd, yr wyf yn awyddus i symmud peth o'r diffyg hwn i ffwrdd. Ein tuedd ni y Cymry ydyw ei gadael yn rhy ddiweddar cyn dechreu codi yr "Adgof Uwch Annghof" i garwyr a chymmwynaswyr ein cenedl. Dichon arall gyflenwi ychydig ar yr hyn fydd yn ddiffygiol yn y llinellau hyn, gan fod rhai yn fyw ag y mae eu hadgof yn cyrhaeddyd yn mhellach yn ol nag yw yr eiddof fi, a'u hadnabyddiaeth yn fwy cywir, efallai. Gobeithio y symbylir hwy gan hyn o linellau.

Fe anwyd gwrthddrych ein cofiant yn 1777, neu yn fwy tebyg, efallai, yn 1778, yn Mhlwyf Llangeler, yn Sir fawr Gaerfyrddin. Dywedir iddo yn foreu ddangos awydd i ymgymmeryd â gwaith y weinidogaeth, neu yn ngeiriau un bywgraffydd, "i gyfrif pob peth yn golled o herwydd ardderchogrwydd gwybodaeth Crist Iesu;" ond ni feddai ei rieni fodd i'w gynnorthwyo yn ei amcan. Trwy gynnorthwy ychydig o gyfeillion a ddealient ei awydd a'i gymhwysderau ardderchog, galluogwyd ef i fyned i'r ysgol at y Parch. D. Davis, Castell Hywel, ysgol yr hwn oedd mewn bri mawr y pryd hwnw yn Sir Aberteifi. Yma gwnaeth gynnydd mawr mewn dysg, a rhywbryd (pa bryd?) tua dechreu y ganrif bresenol, cynnygiodd ei hun ar brawf yn y Coleg Presbyteraidd yn Nghaerfyrddin; ond gwrthodwyd ef, nid o herwydd diffyg cymhwysderau, ond o herwydd nad oedd yn ddigon iach yn y ffydd oedd yn ofynol yn y coleg ar y pryd. Yr oedd efe yn perthyn

i'r hyn oedd yn ysgol newydd neu *new school* yr amser hwnw, yn ddylynwr i Dr. Priestly, ac nid i Dr. Price, ac yr oedd awdurdodau y coleg yn hollol dan ddylanwad y Dr. Abraham Rees, yr *encyclopædist*, yr hwn oedd yn driad. Ond os cafodd ei wrthod yn Nghaerfyrddin, cafodd ddrws agored i'r coleg yn Exeter, yr hwn oedd dan arolygiaeth y Parch. Timothy Kenrick, awdwr yr esponiad ar yr Efengylau. Yma yr oedd y Parch. John Kenrick, M.A., mab llywydd y coleg, ac un a gyrhaeddodd enwogrwydd mawr yn yr enwad wedi hyny, yn gydfyfyrwyr iddo. (Ymofynydd, 1887. tud. 114.)

Wedi treulio yr amser arferol yn Exeter, a chyrhaedd safle uchel mewn dysgeidiaeth, efe a ddychwelodd i Sir Aberteifi i fyw ar fara barlys, &c., ac i bregethu yr Efengyl i bawb a ddelent i wrando arno (nid oeddynt yn lluosog yr amser hwnw) yn Ystrad, Pantydefaid, a Chapelygroes. Yr oedd yma ddigon o waith iddo, gwaith caled, ond ychydig o dâl. Trwy ei ymdrech diflino, ei ddysg a'i ddawn, aeth ei barch a'i ddylanwad ar gynnydd. Caffai barch fel dyn lle'r oedd ei syniadau yn anmhoblogaidd ac yn annerbyniol. Yr oedd ei wrandawyr a'i gynnorthwywyr hefyd yn lluosogi.

Yn 1816,* efe a symmudodd i Sir Forganwg, i gymmeryd gofal yr eglwysi yn y Bettws, Penybontarogwr, a Gellionen. Am yr hanner can' mlynedd diweddaf o'i oes, fodd bynag, cyflwynodd ei wasanaeth bron yn gyfangwbl i'r Gellionen. Am y tymhor hwnw, efe oedd yn ddios ac yn ddibetai y pregethwr mwyaf dylanwadol yn yr enwad yn Nghymru. Fel pregethwr, yr oedd ei iaith pan y mynai yn goeth a chlasurol; pan ymresymai, yr oedd yn eglur, yn nerthol, ac yn argyhoeddiadol; a phan gyffroid ei yspryd Celtaidd i'w wres ac i'w boethfrydedd (*enthusiasm*) cynhwynol, yr oedd ei hyawdledd yn anorchfygol. Dylifai ei eiriau yn ffrwd nerthol, tanllyd, tanbaid. Fynychaf, yr oedd yn gwbl hunan-feddiannol, a phan boethaf yn trefnu ei eiriau yn berffaith i'r amcan a'r perwyl fyddai ganddo mewn golwg. Nid oedd yn colli ei hun yn lluosogrwydd llifeiriol ei eiriau. Nid oedd ei hyawdledd yn geffyl i'w gario nas gwyddai i ba le. Medrai raspo yn arw weithiau, pan elai ar draws rhai o syniadau John Calvin. Myfyriai lawer ar *Institutes* John Calvin, yn y gwreiddiol, wrth gwrs, ac edmygai ei ddawn ymresymiadol; ac os wyf yn cofio yn iawn, arferai ddywedyd, os byddai i chwi ganiatau ei gynseiliau, y byddai yn rhy anhawdd i chwi ochelyd ei gasgliadau. Nid oedd ganddo ddim cariad, er hyny, at athrawiaethau John Calvin. Mwy hyfryd na gwrando ar John James yn trin John Calfin, oedd ei glywed yn ymdriu â rhai o hoff bynciau y ffydd Undodaidd. O mor dyner y gallai fod ar brydiau—mor doddeidiol. Gwresogai pob calon tuag ato yn y tynerwch a'r gwres hwnw, a methai ei hunan ymgadw rhag dagrau. Dyma lle yr oedd ei nerth mwyaf ef, a phe gweithiasai fwy yn y gwythien

---

* Y flwyddyn ar ol brwydr Waterloo. Yn 1816 a 1817, yr oedd tlodi yn gwlad gymmaint, ac mor gyffredinol, na welwyd efallai ei gyffelyb o'r pryd hwnw hyd heddyw.

(*vein*) hono, buasai ei ddylanwad efallai yn llawer mwy nag y bu. Yr oedd yn ddyn o argyhoeddiadau cryfion, ac ni fynai ddygymmod ag neu ymhyraeth â'r rhai hyny ar ran neb pwy bynag. Credai, ac am hyny y llefarai, pa un ai i dynu tŷ i lawr, ynte i adeiladu tŷ.

Fel y rhan fwyaf o weinidogion yr enwad yn Nghymru, gorfu arno ychwanegu swydd ysgolfeistr at ei swydd fel gweinidog da i Iesu Grist. Yn y swydd hono, hefyd, profodd ei hun yn llwyddiannus, a bu ganddo yn ei ysgol rai a gyrhaeddasant enwogrwydd mawr. Gallwn enwi yn neillduol Syr William Melbourne James (*Lord Justice of Appeal*), un o'r cyfreithwyr dysgedicaf yn ei oes, ac un nac annghofiodd hyd ddiwedd ei oes y gweinidog Undodaidd bychan, yn un o gilfachau anhysbell Cymru, a osododd i lawr iddo seiliau ei holl addysg a'i holl enwogrwydd. Cofiai ef o hyd y graig o'r hon ei naddwyd. Nid felly pawb.

Yr oedd Mr. James yn gryf yn yr ieithoedd clasurol, sef yn y Lladin a'r Groeg. Nid yn unig medrai ei darllen yn rhwydd, ond medrai hefyd adrodd yn rhigil ugeiniau o linellau ar y tro.

Pan diriodd y llong Roegaidd hono y sonia'r Parch. T. Griffiths am dani yn hanes bywyd Dafis, Castell-Hywel (tud. 31), yn Aberystwyth, yn 1809, darfu i'r Parch. John James hefyd, yr hwn oedd yn byw ar y pryd yn Lloydjack gyda'r enwog David Jenkin Rees, fyned i Aberystwyth, a chafodd lawer ymgom ddyfyrus gyda'r cadben a'r dwylaw yn eu hiaith eu hunain. Yr oedd Mr. Dafis, yr adeg hono, yn oedranus, a gwell oedd ganddo adael y brodyr diymgeledd yn ngofal cyfaill ieuengach i dori ystori â hwy.

Cyfoethogodd Mr. James beth ar ein llenyddiaeth, ond nid cymmaint ag a allesid ddysgwyl oddiwrth un o'i fedr ef. Y mae ei "Ymofyniad am sylfaen yr Athrawiaeth o Haeddiant Crist" yn deilwng o fwy o sylw ar ran ein pobl ieuainc nag y mae yn gael y dydd heddyw. Cyhoeddwyd y rhan gyntaf yn 1808, yr ail yn 1809, y drydedd a'r bedwaredd yn 1811. Cyhoeddwyd ail argraffiad o'r rhifyn cyntaf yn 1836. Cyhoeddwyd ei gyfieithad o lyfr mawr Belsham dan yr enw *Ymofyniad Tawel*, yn 1824. Cynnwysa y llyfr pwysig hwn 424 o dudalenau, ac y mae rhai copiau ar werth yn rhad iawn gan y Parch. Thomas Thomas, Pantydefaid.

Mor bell ag yr wyf yn cofio, dyna'r oll a wnaeth fel llenor. Yr oedd rhyw ragfarn wedi ei feddiannu, fel na fynai ysgrifenu i'r Ymofynydd, er iddo gael llawer cymhelliad i hyny. Gwnelai, fodd bynag, ei oreu i helaethu ei gylchrediad.

Mwynhaodd Mr. James iechyd rhagorol trwy ei oes hirfaith, hyd nes goddiweddwyd ef gan ei glefyd olaf. Derbyniodd dynerwch mawr yn ei gystudd diweddaf ar law Mrs. Williams, o'r Tygwyn, yr hon a gynodd ei symmud i'w thŷ ei hun, fel y gallai weini yn well arno. Y nae hithau, erbyn heddyw, wedi ei rhifo i blith yr anfarwolion.

Bu farw Mr. James Medi 1, 1864, yn 87 oed, ac ar ei gais ei hun, nebryngwyd yr hyn oedd farwol o hono i Fynwent Pantydefaid, yn Sir Aberteifi.

R. J. J.

CREFYDD.

Os Duw yw ein Tad nefol, ac os ei blant ydym ni, y mae yn canlyn mai ein prif ddyledswydd ni yw ei garu Ef, ei anrhydeddu, ac ufuddhau iddo, a'i wasanaethu. I'r graddau y pallwn yn y ddyledswydd hon y collwn olwg ar wir amcan bywyd; i'r graddau yr ydym yn ffyddlon i hyn yr ydym, yn ystyr oreu y gair, yn grefyddol. Crefydd, gan hyny, yw cyssegriad gwirfoddol, meddylgar, a difrifol y galon a'r bywyd i Dduw.

Y mae tarddiad y gair yn amheus; olreinia rhai dynion ef at y gair a olyga "adgylymu," ac olreinia ereill ef at air a olyga "adlewyrchu." Dylai y ddau feddylddrych fod yn gyssylltiedig â'r gair fel yr arferir ef yn bresenol. Bod yn grefyddol yn wir yw cael ein hadgylymu â dyledswydd ac â Duw; ond y mae hefyd y fath ag i adlewyrchu ar ddyledswydd a Duw, modd y gallo y ddyledswydd hon gael ei chyflawnu yn ddeallus, a Duw ei ogoneddu yn wirfoddol. Crefydd, gan hyny, sydd beth byw ac ymarferol, a chanddi berthynas ag ymddygiad ac ag ymddygiad fel ffrwyth meddwl clir, dewisiad pur, a gwir gariad. Peth deffroawl yw, neu ddychweliad at ufudd-dod mabol, yr hyn na all lai nâ bod yn gydfynedol â serch a myfyrdod dwys.

Ond er mai peth ymarferol yw crefydd, fel y gellir dechreu arni ar unrhyw amser neu adeg, nid y , fo'ld bynag, ond yn unig ddadblygiad o'r bywyd y mae Duw wedi ei roddi i'r yspryd—bywyd sydd yn perthyn i ni fel ei blant, ar yr hyn yr ymddybyna pob peth sydd yn tueddu at ein daioni uchaf a thragwyddol. Yn hyn y cawn afael yn ystyr geiriau yr Iesu, "Y mae yn rhaid eich geni chwi drachefn." Mae yr enedigaeth newydd, fel yr ä efe yn mlaen i'w hesponio, yn enedigaeth o'r yspryd, a chyflawnir a sylweddolir hi pa le bynag y dechreua dyn deimlo nad yw yr oll o'i fywyd ddim yn gynnwysedig yn y gweithredoedd a gyflawnwn yn gyffredin gyda'r creaduriaid is. Yr ydym wedi ein geni drachefn, gan hyny, pan y dysgwn wrando ar lais cydwybod, pan y dechreua rheswm sobr ein harwain, pan y mae gan hawliau dyledswydd allu a gwir ddylanwad arnom a thrasom, pan y teimlwn yr angen am foddhad i'r meddwl, pan nad yw y serchiadau a'r yspryd yn ymfoddlongar ar gyflawniadau neu foddhad y synwyrau yn unig. Bod yn adenedig drachefn yw dyfod yn wir grefyddol. Bydd i'r bywyd fydd i ganlyn y dyhuniad o fywyd yn y meddwl, y gydwybod, a'r serchiadau, gael ei ganlyn gan gynlluniau, ymdrechion, ac erlyniadau, mewn cyssondeb â'r teimladau a'r awyddau mewnol. Bydd i hunanedd gael ei orchfygu neu ei reoleiddio gan deimlad o ddyledswydd a theimlad o hunelfrydedd; bydd i'r holl nwydau gael eu rheoleiddio gan eirchion rheswm a chyfarwyddiadau melus brawdgarwch a chariad; ceisir am feithriniad y meddwl fel dyledswydd, a mwynheir y cyfryw fel peth sydd yn peru neu yn dwyn hyfrydwch i'r meddwl; myfyrir ac ufuddheir i orchymynion Duw hyd y nod pan yr arweiniant i ymwadiad drwy galedi; a bydd i'r gair mawreddog ac ardderchog hwn—DYLED-

SWYDD—ddyfod, nid yn unig yn air o allu, ond hefyd o heddwch a thangnefedd.

Ond mae crefydd, fel dadblygiad naturiol o'r bywyd mewnol, yn ddarostyngedig i gyfreithiau arferol tyfiant. Gellir dechreu ar y bywyd crefyddol ar unrhyw amser, ond ni ellir ei berffeithio ar unrhyw amser. Y mae fel goleuni, "yr hwn sydd yn dysgleirio fwy fwy hyd ganol dydd." Cyfyd yr haul yn raddol ar y ddaear, ac ymorchesta ar y cyntaf â thywyllwch y nos, ac yna â gwyll y nos, niwl, a chymmylau; ond y mae yn ennill nerth ac yn dringo i'w orsedd ogoneddus yn y nefoedd. Ffy y cysgodau, a dihuna hanner y byd at ei waith o newydd.

Yr haul yw codiad a blaenfynediad crefydd yn yr enaid. Gall mil o ffurfiau prydweddol o fywyd lechu yno; ond hyd oni ddihuno y meddwl a'r galon i ddyledswydd ac at Dduw, gorweddant dan gysgod y nos, yn cysgu yn oddefol heb eu gweled. Ond pan fyddo y meddwl wedi cael ei ddihuno i hawliau dyledswydd, a'r galon yn cael ei chyffwrdd gan gariad at Dduw, daw pob peth sydd dda yn yr enaid allan fel cawr nerthol i waith, ac ymegyr blodau melus a phêr eu harogl mewn prydferthwch annarluniadwy, a llawenha byd mewnol yr yspryd yn ngoleuni dysglaer crefydd bur, yn dysgleirio yn fwy a mwy ysplenydd "hyd ganol dydd."

Ni all y bywyd newydd hwn yn yr enaid, er yn ogoneddus ac yn bwysig yn ei effeithiau, gael ei ddechreuad yn rhy gynnar. Cyn gynted ag y gallo plentyn feddwl a charu o gwbl, gall ddechreu bod yn grefyddol, ac y mae, mewn gwirionedd, yn dechreu pan yr ymdrecha arafu ei hunanedd a'i nwydau, ac yn dymuno bod yn gariadus ac yn dda. Ni all fod yn grefyddol ar unwaith yn fwy nag y gall ddysgu siarad a darllen ar unwaith. Y mae yn rhaid iddo ddysgu, ymdrechu, gwylied, ac aros; yna mae y fuddugoliaeth yn sicr o gael ei hennill. Pan yr ymdrechom wrthwynebu profedigaeth, ac y gwnelom yr un peth pan y gwelir ni â phan wrthym ein hunain; pa bryd bynag yr ymdrechom fod yn ufudd ac haelionus a gwirioneddol; pa bryd bynag y collom flas ar ffyrdd drygionus a phethau drwg, ac yr ymdrechom gymmeryd dyddordeb a hyfrydwch mewn pethau iawn, da, a nefol, yr ydym yn grefyddol—yr ydym yn rhoddi ein hunain i ddyledswydd ac i Dduw; ac, er ein cysur, gallwn orphwys yn sicr y bydd i bob ymdrech wneyd y da yn well, a'r gwell yn oreu ac yn gadarnach, ac er fod ein taith rhagom yn galed, ac er ei bod yn anhawdd dysgu gwersi gwir Gristnogol a gorchfygu anhawsderau, etto, os byddwn yn ffyddlon, os cadwn ein harfau Cristionogol yn loew, ni a gawn ein perffeithio drwy y cyfryw, a'n gwobr fydd fawr yn wir. Fel y cafodd y Blaenor Mawr ei berffeithio drwy y pethau a ddyoddefodd, felly bydded i ninau gael ein perffeithio yn yr un modd, fel y gallom edrych yn ol yn y dydd cyfyng gyda phleser a llonyddwch meddwl, ac yn y blaen yn hyderus at daledigaeth y gwobrwy. Byddwn lwyr argyhoeddedig o wirionedd dywediad yr Apostol Iago, "Crefydd bur a dihalogedig, gerbron Duw a'r Tad, yw hyn; ymweled â'r amddifaid a'r gwragedd gweddwon yn eu hadfyd, a'i gadw ei hun yn ddifrycheulyd oddiwrth y byd."

H.

CAN I'R GETHLYDD.

[*O Gronfa y Canon Evans, B.D.*]

Henffych well, y gethlydd gu, sy'n canu sain y gwanwyn ;
Dygais hiraeth am dy gan ar wiail man y collwyn :
Dewi 'n awr a'r newydd braf fod dyddiau haf yn agos,
Blodau'r maes a dail y llwyn, a'r hinon mwyn ar ddangos.

Yn fy ddydd mae'r fwyalch ber yn canu tyner gerddi ;
Gyda thi daw'r eos war, a llinos ar y llwyni ;
Gyda thi daw tymmor serch, a dyddiau merch i garu ;
A gyda thi daw'r meillion mwyn, a brig y llwyn i dyfu.

Teg yw'r awyr uwch fy mhen, a theg yw'r pren blodeuog ;
Teg yw can yr adar mwyn, a theg yw'r twyn meillionog ;
Teg yw gweled deigrau Mair yn mhlith y gwair yn cwnnu ;
A theg yw clywed pawb yn wir hyd glawr y tir yn canu.

Mwyn yw'r dydd yn Ebrill deg, a mwyn yw'r adeg serchus ;
Mwyn i bawb yw'r tyner des, a'r siriol wres cysurus :
Mwyn yw per gawadau glaw, a'r twyni draw'n adlasu ;
A mwyn iawn yw caffael oed mewn pabell goed i garu.

Hyfryd iawn yw gwel'd yr wyn ar hyd pob twyn yn chwareu ;
A'r ifeinctyd yn un fryd yn rhodio'r hyd y caeau ;
Hyfryd gwel'd yr adar man, mor bert y gwnan' eu nythod ;
A hyfryd gweld, ar glawr y ton, corlanau'r llon 'nifeiliod.

Hoff gan rai ganmoli'r mill a dardd yn Ebrill dirion ;
Hardd briallu'n ymyl gwydd, a llygaid dydd ar lasdon :
Deigrau Mair, pan fytho Mai yn gwisgo lifrai prydlon ;
Canol haf bydd canu dwys i flodau glwys y meillion.—Anad.

[Y Gethlydd yw y Gog. Ymddengys i mi fod y gân uchod yn nhafodiaith Morganwg ; a'r orgraff a'r syniadaeth yn debyg i eiddo Iolo Morganwg. Cymharer 338 yn *Emynau Mawl a Gweddi.*—T. C. U.]

PREGETHU CRIST, A CHRIST YN UNIG.

Y mae y nodiadau sydd wedi ymddangos yn eich colofnau yn ddiweddar wedi fy arwain i feddwl tipyn ar y pwnc hwn. Nid wyf yn ysgrifenu y llinellau hyn mewn amddiffyniad i Mr. Davies, ein gweinidog, gan ei fod ef ei hunan yn berffaith alluog i wneyd hyny, os bydd yn dewis. Ond gadewch i mi nodi allan nad wyf yn canmol yr yspryd sydd i'w ganfod yn amlwg yn y nodyn a ymddangosodd yn eich rhifyn

diweddaf, dan y pennawd uchod; ac yr wyf yn credu, a hyny o ldiar sail gadarn, y bydd er lles i'r Ymofynydd, os byddwch yn fwy gwyliadwrus i beidio cyhoeddi dim o'r fath yn y dyfodol. Y mae'r un sylw yn dal mewn perthynas i'r ohebiaeth ddiweddar ar bwnc y Llyfr Tonau. Yr ydym yn ddigon bach o nifer yn barod, heb ein bod yn mhellach yn ymbleidio yn nghylch pethau fel hyn. Ond at y pwnc: Ai pregethu Crist, a Christ yn unig, yw gwaith gweinidog yr Efengyl? Yr wyf yn credu mai è, o herwydd beth sydd i ni i'w ddeall wrth bregethu Crist? Gwyddom beth y mae'r enwadau pobl- ogaidd yn ei ddeall wrth hyny; ond yr wyf wedi arfer meddwl fod pregethu Crist yn golygu rhywbeth hollol wahanol, sef cyhoeddi'r egwyddorion a'r gwirioneddau a ddysgwyd gan Iesu Grist yn ystod ei fywyd, nis gwaeth yn mha fodd neu yn mha ddull—y maent yn cael eu cyhoeddi. Os bydd dyn yn gwneyd hyny mewn unrhyw fodd, ac i unrhyw raddau, y mae yn pregethu Crist. O'r cyfryw, gellir nodi allan gyfiawnder, gonestrwydd, didwylledd, cariad, cydymdeimlad, &c., ac yr wyf o'r farn mai cyhoeddi neu bregethu yr egwyddorion a'r gwirioneddau hyn ydyw gwaith gweinidog yr Efengyl, yn o gystal a phob Cristion arall hefyd, ac nid yn y pwlpud ar y Sul yn unig y mae i'w cyhoeddi, ond hefyd bob dydd o'i fywyd—yn ei rodiad, yn ei fywyd. Ac nid yn unig pan yn ymwneyd â'r pethau sydd yn cael eu galw yn gyffredin yn bethau crefyddol ar y Sul y mae i gyhoeddi yr egwyddorion a'r gwirioneddau hyn, ond yn mhob peth fel y gesyd ei law arno.

Y mae y rhan fwyaf o weinidogion yr Efengyl yn cymmeryd rhan mewn materion gwleidyddol, ac y mae yn ddyledswydd arnynt i wneyd hyny, yn ogystal ag yn ddyledswydd ar bob dyn sydd yn caru lles a daioni ei wlad. A phan y mae gweinidog yr Efengyl yn sefyll i fyny ar *blatform* cyhoeddus mewn cyssylltiad â gwleidyddiaeth, ei brif amcan wrth wneyd hyny yw amddiffyn yr hyn sydd iawn, a hyrwyddo llwyddiant yr achos a ystyria sydd yn fwyaf tebyg o wneyd gwyneb y ddaear yn debycach i wyneb y nefoedd. Ac wrth wneyd hyn, y mae yn pregethu Crist. Nid ydym i ddeall wrth bregethu Crist fod rhaid ei enwi yn barhaus, o herwydd gellir pregethu Crist hyd y nod pe na baem yn son am ei enw o ddechreu yr wythnos hyd ei diwedd; ac nid wyf yn un o'r rhai hyny ystyriant fod yn rhaid i'r pregethwr son am Grist yn awr ac eilwaith yn ei bregeth cyn y bydd yn pregethu yn iawn. Ie, yr wyf yn myned yn mhellach, ac yn dweyd fy mod yn credu y gall y dyn sydd yn gwadu Crist â'i enau, etto ei bregethu, a'i bregethu yn fynych yn fwy effeithiol a dylanwadol na llawer o'r rhai sydd yn proffesu eu hunain yn ddysgyblion iddo. Er enghraifft, yr ydym yn gwybod fod Mr. Charles Bradlaugh yn gwadu Iesu Grist. Ond yr wyf am nodi allan un engbraifft o lu mawr o honynt, trwy yr hon yr oedd yn pregethu Crist, er gwaethaf ei fod yn ei wadu. Yr wyf yn cofio i mi, er ys rhywfaint o amser yn ol, weled yr hanesyn canlynol am dano:—Yr oedd rhyw edmygydd (anadnabyddus) wedi gadael swm neillduol o arian iddo yn ei ewyllys. Galwyd arno gan yr ymddiriedolwyr i dderbyn y gymmunrodd. Wedi iddynt egluro yr

amgylchiadau iddo, ac iddo yntau i nodi allan nad oedd erioed wedi cael y fraint o adnabod ei gyfaill, na chlywed son am dano, gofynodd am ei berthynasau; ac ar ol cael eglurhad o'r cyfan, dywedodd Mr. Bradlaugh ei fod yntau drachefn yn ewyllysio rhoi y swm a dderbyniodd i'w rhanu rhwng perthynasau tlawd ei gyfaill ymadawedig, ond anadnabyddus. Onid oedd Charles Bradlaugh yn pregethu Crist yn y weithred ardderchog hon o'i eiddo? Onid oedd Lloyd Garrison yn pregethu Crist pan yn gweithio â i holl egni i ryddhau y caethion? Onid oedd Cobden a Bright yn pregethu pan yn ymdrechu dyddimu y dreth ar yr ŷd, er mwyn cael bara yn rhatach i dlodion angenus y wlad? a phan oeddent yn sefyll yn wrol i edrych ar eu delwau eu hunain yn cael eu llusgo a'i llosgi ar hyd heolydd y trefydd lle yr oeddent yn cynnal eu cyfarfodydd, ac yn cael eu lluchio â cherryg a llaid—ie, hyd y nod gan dlodion newynog o'r dorf. Tebycach nad oedd son am Grist gan y ddau wron ardderchog hyn, ond teimlad yn eu calonau dros wir angen y bobl. Onid gweithredoedd o'r fath hyn oedd Crist yn ceisio gan ei ddysgyblion i wneyd ar Fynydd yr Olewydd? Ai nid rhywbeth cyffelyb mae myfyrwyr Colegau Rwssia yn wneyd ar hyn o bryd, gan brotestio yn erbyn y fath gyfreithiau caethiwus a gorthrymus o ddanfon yr holl gannoedd o'u cyd ddynion *(political exiles)* yn flynyddol i Siberia rewllyd? Onid yw pob crefftwr a gweithiwr tlawd yn pregethu Crist wrth gyflawnu ei waith yn ddidwyll a gonest yn absenoldeb ei feistr, ac yn cynghori ei gydweithwyr i wneuthur felly bob amser? Yr wyf wrth hyna yn meddwl fod yn ddyledswydd ar bob gweinidog o *bob enwad* yn *ddiwahaniaeth*, ac hefyd hyd y nod bob un ar sydd yn ei gwrandaw, yn ol ei alluoedd, i bregethu Crist mewn gair a gweithred. Canys nid wyf wedi deall yn holl ysgrifeniadau'r Iesu iddo geisio gan neb o honom i gyflawnu un weithred a fyddo'n drygu'r iechyd corfforol, neu i flino'r meddwl, ond pob gorchymyn o'i eiddo er adeiladaeth i'r meddwl a iechyd i'r corff.

T. J.

Y CYRDDAU CHWARTEROL.

Nos Fercher, Ebrill y 9fed, dechreuwyd y cyfarfod cyntaf o gynulliadau Gwanwynol Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru yn Nghapel yr Undodiaid yn Abertawy, pan y traddodwyd pregethau gan y Parch. Thomas Thomas, Pantydefaid, yn Gymraeg, a'r Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdar, yn Saesneg. Arweiniwyd y gwasanaeth agoriadol yn ddwys gan y Parch. J. Fisher Jones, Gellionen, ac yr oedd y datganiad o emynau Cymreig a Seisnig gan y côr (Mr. Appleby yn gwasanaethu wrth yr organ) yn effeithiol iawn.

Cymmerodd y Parch. T. Thomas yn destyn Luc xv. 7, "Yr wyf yn dywedyd i chwi mai felly y bydd llawenydd yn y nef am un pechadur a edifarhao," &c. Desgrifiodd y pregethwr agwedd Crist tuag at yr ysgrifenyddion a'r Pharisead ar un llaw, a'r publicanod a'r pechadur-

iaid ar y llaw arall, ac ar ol ymdrin â'r gymhariaeth hon mewn modd deheuig, daeth at ddammeg y ddafad golledig, yn yr hon y cymmerasai ei destyn. Edrychai ar y ddammeg oddiar ddau safbwynt—un yn dywyll a'r llall yn oleu. Nid oedd y bugail yn cael gafael yn mhob dafad oedd yn crwydro o'r gorlan: yr oedd lluaws na ddeuid o hyd iddynt byth, oblegyd eu bod wedi syrthio i ddwylaw ereill. Ond dywedodd Crist y gwnelai y Bugail Da chwilio am y ddafad golledig hyd onis caffai efe hi. Gallasai y wybodaeth o hyn wneyd rhai pechaduriaid yn ddifater, oblegyd dalient fod y Bugail yn edrych am danynt, ac y byddai, yn gynnar neu yn ddiweddar, yn sicr o'u cael a'u dwyn yn ol i'r gorlan. Dyna'r darlun prudd, ond yr oedd ganddo ei ochr oleu pan yr ystyrient fod y Bugail yn prysur chwilio am yr hyn yr oedd Efe wedi ei golli, yn ceisio am feddiant oedd yn perthyn iddo. Siaradai y pregethwr yn erbyn yr emynau hyny ydynt yn darlunio Crist yn y nefoedd yn gweddio yn y modd mwyaf diraddiol am ddychweliad pechaduriaid, ac yn dangos y nodau yn ei ddwylaw a'i draed. Yr oedd y fath awgrymiadau yn ddirmyg ar y Tad, yn ystaen ar ei gymmeriad Dwyfol.

Cymmerodd y Parch. R. J. Jones ei destyn o'r un bennod (Luc xv. 4), a phregethodd bregeth a draddododd efe flynyddau yn ol yn Llandyssul, a'r hon, wedi hyny, a ymddangosodd yn Yr Ymofynydd tua phum' neu chwe' mlynedd yn ol. Yr oedd y bregeth, pwnc yr hon oedd "Natur a thynghed dyn," yn wir feistrolgar a dyddorol dros ben. Hanes dyn a'i gyflwr presenol sydd wedi bod yn bwnc efrydiaeth y rhan fwyaf o'r dynion mawrion ydynt wedi bodoli yn y byd, a chydunent i gyd fod cwmmwl yn crogi uwchben natur dyn. Adeilad mawr dyrysedig oedd y natur hon, ac yr oedd tristwch a gwae yn nglyn â hi, y rhai oeddynt wedi blino pob oes. Dywedid y gellid esponio dechreuad drwg drwy fodolaeth y diafol, ond beth oedd yn esponio bodolaeth y diafol ei hun? Yna ymdriniodd y pregethwr â'r gwahanol dybiau am ddechreuad drwg, a siaradodd yn groew yn erbyn y syniad poblogaidd o barthed i fwyta'r afal yn Ngardd Eden, a'r canlyniadau tragwyddol ydynt yn dylyn. Mae gwyddoniaeth a'r dduwinyddiaeth boblogaidd yn milwrio y naill yn erbyn y llall yn nghylch yr athrawiaeth o gwymp dyn, yr hon a ddygwyd i anfri pellach yn y blynyddau diweddaf gan ddaearegwyr. Mae y daearegwyr hyn wedi dangos fod marwolaeth yn y byd yn mhell o flaen dyn, ac y mae yr anhawsder hwn wedi aflonyddu llawer ar feddyliau uniawngred. (Ofnwn na allwn wneyd cyfiawnder â'r bregeth ragorol hon drwy roi crynodeb o honi yma, ond cynghorwn bob un i droi i fyny yr hen rifynau o'r Ymofynydd, a chaiff lawn dâl am y drafferth wrth ddarllen y bregeth hon. Gweler Ymof. Rhagfyr, 1882.)

Dechreuwyd cwrdd boreu dydd Iau gan Mr. W. J. Phillips, Nottais, a dylynwyd ef mewn pregeth hyawdl gan y Parch. Hathren Davies, Cefncoed, oddiar Iago iv. 17, "I'r neb a fedr wneuthur daioni, ac nid yw yn ei wneuthur, pechod ydyw iddo." Cyferbyniodd y pregethwr feddylddrych Crist o gyfiawnder a gwirionedd ag eiddo y byd, a dangosodd nad yw clorianau y byd o gyfiawnder ddim bob amser yn gywir.

Y rheswm fod olwynion blaenfynediad dynol yn symmud mor araf yw, nid am nad yw pobl yn gwybod yr hyn sy'n iawn, ond am nad ydynt yn gwneyd y da a wyddant. Fe ŵyr pob un ddigon o egwyddorion cyfiawnder i'w wneyd yn sant ond iddo gario ei wybodaeth i ymarferiad. Mae gwneyd ein dyledswydd yn galed, ond dylai y ffaith hono ein symbylu i wneyd yr hyn a allom. Nid yw yr iachawdwriaeth sy'n costi dim o werth dim. Ond i ni wneyd ein goreu, ein dyledswydd, cawn ein harbed rhag y pechod marwol o beidio cyflawnu.

Ar ol canu emyn Cymreig, esgynodd y Parch. O. J. Jones y pwlpud, a thraddododd bregeth Seisnig oddiwrth 2 Cor. iv. 3, 4. Mewn pregeth athronyddol o gryn allu dangosodd Mr. Jones yr agwedd a gymmerir gan yr Eglwys Gristionogol tuag at yr Undodiaid, a blinai yn fawr o herwydd y gwrthglawdd y mae iawnffyddiaeth—duw yr oes—yn ei godi yn mhobman, fel ag i rwystro dynion i weled y gwirionedd. Triniai â llaw drom yr ysgrifenwyr hyny ydynt, trwy eu gweithiau, wedi dirgymhell y gwirioneddau a'r syniadau rhyddfrydig sydd wedi bod yn hoff destynau yr Undodiaid drwy y blynyddau, ond a ffromant yn aruthr pan y cyhuddir hwy o fod mewn cyfathrach ag Undodiaeth. Mynwesai y pregethwr ei obaith y delai y bobl i gydnabod hawliau yr Eglwys fechan Undodaidd, ac i edrych arni fel tyst ffyddlon i wirionedd Duw.

Ar ol y gwasanaeth cafwyd lluniaeth yn yr ysgoldy perthynol i'r capel, a theg yw dweyd fod yno ddarpariaeth oludog o ymborth blasus. Wedi gorphen bwyta, dywedodd y Parch. W. A. Clarke, y gweinidog Undodaidd yn Abertawy, ei fod ef yn dra diolchgar i'r gweinidogion ac ereill, y rhai oeddent wedi dyfod i'r cyfarfodydd, ac yn enwedig i'w gyfeillion Cymreig. Carai ddweyd fod llawer iawn iddynt hwy, fel Undodiaid, i'w wneuthur mewn tref fel Abertawy. Yr oedd ganddynt boblogaeth fawr, ond cynnulleidfa fechan oedd ganddynt hwy fel enwad. Yr oedd lluaws o'u cwmpas yn cyfranogi o'u hegwyddorion, a dylid mabwysiadu rhyw gynllun er mwyn dwyn y bobl hyn y tu fewn i'w rhengoedd, er eu cynnorthwyo yn y gwaith o flaenfynediad.

Cydnabu y Parch. R. J. Jones y diolchgarwch ar ran yr Undodiaid Cymreig oeddent yn bresenol.

Y Parch. W. Copeland Bowie, cynnrychiolydd y Gymdeithas Undodaidd yn Llundain, a ddywedodd fod ganddynt well cylch o waith yn Abertawy nag mewn llawer rhan o'r deyrnas. Gyda threfniant ac ymdrech, y dylai fod symmudiad mawr yn Neheudir Cymru at ffurf uwch a godidocach o grefydd. Nid oeddent hwy, fel Undodiaid, yn cylymu en hunain wrth ffydd Luther, Calfin, nac un o'u cyndeidiau, ond yr oeddynt yn fyddin gryno i ddal i fyny yr oll a gredent oedd yn fwyaf gwir ac ardderchog.

Am dri o'r gloch cynnaliwyd cynnadledd, pryd y cymmerwyd y gadair gan Mr. J. H. Rowlands, Y.H., Castellnedd. Darllenodd Mr. C. H. Perkins bapyr ar "Ddyledswyddau y pwlpud yn ei berthynas â gwleidiadaeth." Ymddengys yn hynod, ebai Mr. Perkins, fod enwad fel yr un Undodaidd, sydd yn ddyledus am ei fodolaeth fel eglwys gydnabyddedig i frwydrau a gawsant eu hymladd yn galed ac am hir

yspaid, a ennillwyd yn araf, a thrwy anhawsder a pherygl, dros ryddid gwladol a chrefyddol, er hyny, ar lawer ystyr, mor geidwadol ag yw. Mae yn ddiamheu, fod llawer o honom yn bresenol yn rhanedig oddiwrth gorff mawr y Blaid Ryddfrydig, ac oddiwrth ei harweinydd enwog, ar bwnc sydd o hyd yn dal ei safle fel cwestiwn mawr gwleidiadaeth y dydd Mae y ffaith fod yr ymraniad hwn yn bodoli yn gosod cyfrifoldeb ychwanegol ar ein gweinidogion. Mae gan ein gweinidogion i ymwneyd â gweriniaeth—corff cymdeithasol—yn yr hwn mae gan bob un ei hawl i'r oll sydd yn perthyn i'r sefydliad. Dylai y gweinidog gofio nad ar-dir cyffredin y saif pan yn y pwlpud, oblegyd, fe all yno draethu ei farn, a gwneyd ei ymosodiadau heb neb i'w rwystro. Mae egwyddorion cyffredinol yn gorwedd dan wraidd pob gwir wleidiadaeth, y rhai ydynt wedi eu sylfaenu ar y dyheadau crefyddol uwchaf, ac mae y rhai'n yn agor maes teilwng o'r pwlpud a theilwng o'r gweinidog sy'n ei lanw. Pwnc arall yw y pwnc o gydraddoldeb crefyddol. Mae genym yn ein mysg o hyd sefydliad cenedlaethol, yr hwn, er ei fod yn cael ei lywodraethu gan Senedd (yr hon sydd yn greadur y bobl), a oddefwyd, er hyny, i gau ei bwlpudau yn erbyn dynion fel ein teidiau —yr odidog ddwy fil—a ddylasent gael rhyddid i bregethu duwinyddiaeth eangach, a syniadau anfeidrol mwy rhyddfrydig nâ'r credoau a'r erthyglau a ganiateir gan yr Eglwys yn bresenol. Mae y rhai hyn yn faterion yn mhell uwchlaw tiriogaeth plaid, ac o ganlyniad, ymddangosent iddo ef yn hollol y tu fewn i gylch y gweinidog. Mewn perthynas i ba fath o gyfarfodydd a ddylent gael eu cynnal mewn lleoedd o addoliad, meddai efe yn bersonol ar ran fawr o'r hen deimlad, y dylai eglwysi a chapeli fod mewn gwirionedd yn lleoedd o weddi, o fyfyrdod, ac o ymarferiadau crefyddol. Ond ar yr un pryd ni ddylid tynu y llinyn yn rhy dŷn, yn enwedig pan nad oes un man ond y capel lle y gellir ymgyfarfod ynddo. Yn ddiweddaf, credai efe mai nid pwnc o gredoau, o opiniynau, ac athrawiaeth yw crefydd, ond peth a ddylid ei chymhwyso bob dydd at fywyd politicaidd yn gystal a phersonol, ac o ganlyniad, credai mai dyledswydd y pwlpud yw dysgu egwyddorion eang a sanctaidd y grefydd hon, a chario yr egwyddorion hyn allan i weithrediad ar bob achos. Tra yn osgoi ymrafaelion a drygau pleidiau, dylem ymdrechu dyrchafu tôn bywyd y genedl i safon yr egwyddorion a gawsant 1,900 o flynyddau yn ol eu datgan mor ardderchog yn ninasoedd, ar fryniau, ac ar wastadeddau Palestina.

Ni chredai y Parch. R. J. Jones y dylai y pwlpud gael ei ddefnyddio i ledaenu gwleidiadaeth bartiol, ond ni phetrusai sefyll i fyny dros egwyddorion ag oedd ganddynt i wneyd â bawddfyd dyn. Egwyddorion cyffredinol yn unig a ddylasent gael eu traethu o'r pwlpud, ac ni fyddai ond rhyfyg yn y pregethwr i benderfynu sut y dylasai personau weithredu dan amgylchiadau neillduol. Tybiai efe fod yr Undodiaid ar y cyfan yn driw i Ryddfrydiaeth. Yr oedd, serch hyny, wedi clywed fod rhai Toriaid Undodaidd i'w cael, er nid yn Aberdar nac Abertawy. Os oedd rhai o'r cyfryw yn bodoli, y lle goreu ar eu cyfer oedd cwpbwrdd gwydr yn yr Amgueddfa Brydeinig.

Y Parch. Copeland Bowie a synai yn aml at yr absenoldeb o yspryd tegwch mewn dadleuon politicaidd, yspryd annghristionogol ac annheg y dylasent hwy fel athrawon ei gywiro. Yr oedd arnynt eisieu yspryd brawdgarwch, tegwch, a chyfiawnder i lanw ac i drwytho yr holl fywyd, ac i lywio dynion yn mhob galwedigaeth.

Meddyliai Mr. Lewis N. Williams, Aberdar, y dylai gwleidiadaeth gael ei chadw allan o'n heglwysi yn gyfangwbl. Yr oedd gan eu gweinidogion ddigon o faes i arfer eu talentau heb ymhyru dim â gwleidiadaeth.

Siaradwyd hefyd gan y Parch. Hathren Davies a'r Cadeirydd.

Darllenwyd papyr arall gan y Parch William Parry ar "Addysg grefyddol, angen mawr yr oes," ac hyderwn y byddwn yn abl i roi y papyr yn ei gyfanrwydd ar dudalenau Yr Ymofynydd cyn bo hir.

Yn yr hwyr, cynnaliwyd cyfarfod adeiladol a dyddorol dros ben yn yr ysgoldy, yr hwn a wneid i fyny o adrodd a chanu, yr hyn a wnaed yn y modd mwyaf deheuig. Cymmerwyd rhan ynddo gan amryw gyfeillion o bell ac agos.

YSTYRIWCH Y LILI.

Mae'n cuddio o fewn i'r lili ryw ofal tyner, teg,
Sy'n gwneyd y dae'r-ronynau'n ogoniant awyr chweg ;
Mae'n gwau rhyw ddysglaer wisgoedd o hyd, o hyd, o hyd,
Ar lanau'r dyfroedd tawel, yn nghonglau bryniau'r byd.

A ninau wrth gydwylied ag Ef aeth ar ei hynt
I edrych ar y lili yn Galilea gynt,
A deimlwn swyn rhyw yspryd mwy dwfn a mwy byw
Trwy'r oesoedd yn amlygu dirgelion dyfnion Duw.

Gynllunydd doeth y lili ! Mae ol dy fys ar ddyn ;
A thyfiant pob blodeuyn awgryma'th 'wyllys cun :
Y blagur sy'n ymagor, y tlws flodeuyn chwardd !
A chlywn y byd yn adsain,—Mae'r lili'n tyfu'n hardd !

Mae cudd-feddyliau'r anwar yn agor, len 'r ol llen ;
Daw hardd weledigaethau 'u bywydau pur i ben ;
Mae'r llwythau'n graddol godi, mae'r drygau'n syrthio ar goll,
Mae'r trybiith yn troi'n harddwch, a Duw'n coroni'r oll !

Adsain o'r Saesneg. T. C. U.

Rhagfyr 25, 1889.

MESUR Y DEGWM.

Erbyn y bydd y llinellau hyn yn cael eu darllen, y mae yn anhawdd gwybod pa ddrych fydd ar y mesur hwn. Bydd naill ai wedi ei daflu allan, wedi ei drawsffurfio, neu ynte wedi ei basio yn ei grynswth. Digon tebyg mai'r olaf fydd y ffaith. Y mae'r Llywodraeth bresenol, gyda'u canlynwyr gwasaidd, fel pe wedi penderfynu pasio'r mesur hwn trwy deg neu arw, er gwaetha'f pob gwrthwynebiaeth a ddangosir iddo, ac os teflir ef allan, bydd hyny yn sicr o ddygwydd trwy ryw ddamwain neu gilydd, yr hon nas gallent hwy ei chadw ymaith. Y mae'r mesur hwn yn ddiamheu wedi cael ei fwriadu ar gyfer y genedl Gymreig, er rhoddi offeryn effeithiol yn nwylaw'r offeiriaid, i'w cynnorthwyo i godi'r degwm oddiar y ffermwyr sydd yn awr yn pallu ei dalu. Nis gall fod un amheuaeth am hyn, o herwydd nid oes dim wedi dygwydd yn un man arall o'r deyrnas, ond yn Nghymru, fel ag i gyfiawnhau gwaith y Llywodraeth yn dwyn yn mlaen fesur o'r fath ag ydyw hwn. Y ffermwyr Cymreig yn unig sydd wedi gwrthod talu degwm at gynnal yr offeiriad, ac felly, yr oedd yn rhaid i'r Llywodraeth wneyd rhywbeth er eu gorfodi i wneyd hyny. Y mae yn bwysig i bob Cymro gofio hyn erbyn yr etholiad nesaf, yn enwedig felly y ffermwyr. Y mae y mesur wedi ei ddwyn yn mlaen yn unig er mwyn symmud ymaith y baich caled oedd yn gorphwys ar ysgwyddau yr offeiriad, o herwydd ei fod yn methu cael gan ei blwyfolion Ymneilldiol i dalu at ei gynnal. Ond mewn gwirionedd, ni fydd un mymryn yn nes yn mlaen etto, ar ol y daw'r gyfraith newydd i weithrediad, nag oedd cyn hyny, o herwydd bydd ganddo yr un dynion i ymlafa â hwynt ag o'r blaen, ac nid yw yn debyg y bydd unrhyw gyfnewidiad yn y dull o godi'r degwm yn lleihau dim ar eu penderfyniad i beidio a'i dalu cyhyd ag y bydd yn cael ei ddefnyddio at yr un amcan ag y defnyddir ef yn bresenol. Dywedir mai prif amcan y gyfraith newydd fydd gosod y cyfrifoldeb am dalu'r degwm ar y tirfeddiannydd; ac os felly, gellir dweyd ar unwaith nad yw eu gofidiau ond megys wedi dechreu, ac y mae yn sicr na wnant orphen hyd nes y bydd yr eglwys wedi cael ei gosod i sefyll ar ei thraed ei hun. Y mae yn ymddangos fel pe bai y Llywodraeth yn anwybyddus o'r ffaith mai tirfeddiannwyr yw y rhan fwyaf o lawer o'r gwrth-ddegymwyr presenol yn Nghymru, a hyny am y rheswm na feiddiai un *tenant*, ond ambell un yma a thraw, wneyd hyny. Ac nid oes amheuaeth na fydd y gwrth-ddegymwyr presenol yn parhau yn wrth-ddegymwyr etto pan y daw'r gyfraith a geisir ei phasio yn awr trwy y Senedd i weithrediad. Y mae y frwydr bresenol yn erbyn y degwm yn un a ymleddir yn ffafr yr egwyddor fawr o gyfiawnder a chwareu teg, ac y mae wedi tarddu oddiar y gwrthwynebiad dwfn sydd yn nghalon pob dyn ag sydd yn werth ei alw felly yn erbyn talu at gynnal cyfundrefn grefyddol yn yr hon nad ydynt yn credu, ac oddiwrth yr hon nad ydynt yn derbyn un budd na lles am eu harian. Nid oes gwrthwynebiad i dalu degwm mewn un modd, ond iddo gael ei droi at ryw amcanion cenedlaethol. Ond mor

sicr ag fod yr haul yn codi bob boreu, ni thelir degwm yn wirfoddol byth mwy, cyhyd ag y defnyddir ef at gynnal yr Eglwys, ac fe fydd yn rhaid i'r offeiriad etto, fel o'r blaen, alw am help y gyfraith i godi ei gyflog.

NODYNAU GWASGAROG.

Y "DOWN GRADE" YN NGHYMRU.

Yr oedd un o bregethwyr mawr y Methodistiaid yn pregethu yn ddiweddar ar ganlyniadau naturiol pechod, ac yr oedd hytrach yn tueddu i ddibrisio yr hen syniad a gyssylltai gosp pechod â'r dyfodol pell fel peth y gall fod amheuaeth am dano, ac yn gwasgu ar feddyliau ei wrandawyr ddrygedd ofnadwy pechod ei hunan, ac ofnadwy fawredd y gosp oedd yn glynu wrtho. Mae cyssylltiad annattodol rhwng achos ac effaith, rhwng pechod a chosp. Ni fyddai niwed yn y byd pe caffai cynnulleidfaoedd glywed rhagor am ganlyniadau naturiol ac union-gyrchol pechod.

T. L. R.

DENGYS PLUEN Y FFORDD Y CHWYTHA'R GWYNT.

Mae y Methodistiaid wedi ei gwneyd hi o'r diwedd wrth ddropio y gair, "uffern," allan o *Rodd Mam*. Dysgwyliwn lawer oddiwrth gychwyniad fel hwn. Yn un peth dysgwyliwn lai o bregethu tân a brwmstan yn y pwlpudau, ac ni fyddai yn syndod genym i glywed fod y Bedyddwyr yn y dyfodol agos yn cymmeryd dan eu hystyriaeth y dymunoldeb o ddropio yr arferiad sydd ganddynt yn Morganwg o leiaf o gyhoeddi y Pum' Pwnc ar wyneb Llythyr y Gymmanfa. Nid yw y Pum' Pwnc ond *dead letter* yn awr, a byddai yn well iddynt dalu am argraffu y Salm gyntaf yno yn eu lle.

Q. Q.

YMHOLIAD AM PROFF. G. O. REES, M.D.

Yr wyf yn deall fod y boneddwr uchod yn un o brif feddygon *Guy's Hospital*, Llundain, a'i fod wedi marw rywbryd y flwyddyn ddiweddaf. A oes rhyw ddarllenwr o'r Ymofynydd all ddywedyd beth oedd enw ei dad a'i fam? Yr wyf yn credu ei fod yn wyr i'r Parch. Josiah Rees, Gellionen. Y mae Mr. Thomas R. Davis o Philadelphia yn ddarllenwr rheolaidd o'r Ymofynydd, ac yn wyr i Josiah Rees ac i D. Davis, Castell Hywel, hefyd. A fyddai yn ormod i ni ddysgwyl gair o eglurhad oddiwrtho ef ar y mater hwn. Medra Gymraeg yn nobl, er ei fod yn yr Amerig er ys mwy nag hanner can' mlynedd. T. C. U.

SUL Y BLODAU.

Nad pa un ai paganaidd, Derwyddol, neu Babyddol, o ran tarddiad yw yr arferion ydynt wedi dyfod mor amlwg i'n plith yn ddiweddar, nid ydynt yn un *credit* i neb pwy bynag. Cyhuddid rhywrai gynt o droi tŷ Dduw yn synagog satan ac yn ogof lladron; mae llawer o'r un yspryd yn meddiannu y bobl hyn ydynt yn troi ein mynwentydd ar Sul y Blodau yn ffair ac yn arddangosfa ffyliaid, dan rith parchu eu meirw. Addurno beddau eu meirw a llabyddio coffadwriaeth pob duwiol trwy eu hymddygiad gwarthus ac anweddaidd. Gellid dysgwyl tymhor ymweliad â'r beddau i fod yn dymhor o sobrwydd, difrifoldeb ystyriol; ond nid felly y mae. Nage, nage. Ffair gwagedd ydyw yn y prif agweddau. Mae rhyw reswm gan y Pabydd sydd yn myned i'w eglwys i weddio dros ei feirw, cred efe yn rhinwedd a lles hyny, ac yna yn myned at y bedd i osod ei dusw blodau arno. Ond wele'r Cymro yn cymmeryd ei gopi, nid o'r rhan bwysicaf, ond o'r rhan fwyaf ddibwys, ac yn fynych yn lladrata blodau oddiar feddau ereill i addurno beddau ei anwyliaid ei hunan. Wn I a ydyw yn credu fod ysprydion y cyfiawn wedi eu perffeithio yn cymmeradwyo ymddygiad o'r fath.

T. C. U.

CYMRAEG Y DEHEUDIR.

Yr wyf wedi synu lawer gwaith at barodrwydd y Deheuwyr i gymmeryd i fyny ac ysgrifenu yn ol tafodiaeth y Gogledd, yn lle cadw at yr eiddo eu hunain. Mae yn ddiamheu fod y Gymraeg yn llaw llawer yn ymlygru yn gyflym y dyddiau hyn, ac yr wyf yn cytuno â'r ymdrech a wneir gan rai i gwympo yn ol ar lafar gwlad, yn lle gosod arogl y lamp a'r geiriadur ar eu hysgrifau. Yn ei ragymadrodd i'r argraffiad newydd o "Lyfyr Iob 1588," cyfeithad y Dr. Morgan, y mae Mr. J. Gwenogfryn Evans yn gosod i lawr y rheol hon:—"Before such terminations as—ad, aid; ol, on, &c., an *i* should *not* be inserted when following a diphthongal syllable. For example, adeilad, anifeiliaid, rheidol, ysgolheigon, *not* adeiliad, &c."

Anifeil*od* 'wedwn ni yn Morganwg. A ydych chwi yn foddlawn i'r ffurf hon, Mr. E.? T. C. U.

Y DRETH EGLWYS YN NGHAERFYRDDIN.

Yn ei erthygl ar y Proff. Morgan o Gaerfyrddin yn *Y Geninen* (Mawrth, 1889), y mae Watcyn Wyn yn sylwi fel y canlyn ar y pwnc uchod:—"Daeth y 'Dreth Eglwys' yn gwestiwn tanllyd yn y dref heb fod yn hir [wedi sefydlu y Proff. Morgan] yno; a gallwn ddweyd mai efe oedd y Dafydd a darawodd y Goliath i lawr. Y mae hanes brwydr y Dreth Eglwys yn nhref Caerfyrddin yn ddyddorol iawn, yn debyg i hanes brwydr y degwm y dyddiau hyn, ac efallai yn 'gysgod daionus

bethau i ddyfod.' Fel mater cydwybod gwrthododd Mr. James Bagnall, masnachwr mewn ŷd, dalu y dreth; ac mewn canlyniad cymmerodd yr awdurdodau afael mewn sachau o ŷd, ac aethant â hwy ar drol i'r swyddfa. Mae'n debyg mai nid Mr. Bagnall oedd perchen y drol nâ'r sachau,—dim ond yr ŷd oedd eiddo ef. Daeth perchen y drol i wybod, a chymmerodd feddiant o honi ar y ffordd; daeth perchen y sachau i wybod, a chymmerodd yntau feddiant o'r sachau ar y ffordd; a chafodd yr ŷd ei hau ar y stryd: ond tebyg i hyn arwain i gynauaf rhagorol; oblegyd yn mis Tachwedd yn y flwyddyn hono, 1855, cariwyd drwy fwyafrif mawr fod y dreth i gael ei dyddimu yn y dref, a hyny dair blynedd ar ddeg cyn iddi gael ei llwyr ddileu drwy y gyfraith."

Yr wyf yn deall fod Mr. James Bagnall wedi marw, ond nid wyf wedi gweled cymmaint a llinell am dano yn y cyfnodolion.

S. N. S.

GWEITHIAU DR. MARTINEAU—AWGRYM.

Mr. Gol.,—Trwy ddamwain, darfu i mi, ychydig ddyddiau yn ol, gael cipolwg ar lyfr diweddaf yr ysgrifenydd penigamp uchod, "Sedd Awdurdod mewn pethau crefyddol," ac yn ol yr hyn a welais o'r llyfr, a'r hyn wyf wedi ddarllen am dano yn y papyrau wythnosol, mae yn debyg o greu tipyn o gynhwrf yn y byd crefyddol, ac o bossibl, o yru rhai o gyfeillion uniongred y doctor parchus i gefnu arno, oblegyd yr heresi a dybiant hwy sydd yn gynnwysedig yn y llyfr. Ond bid a fyno am hyny, nid rhoi barn ar y llyfr, pe medrwn I wneyd hyny, oedd fy amcan wrth ddechreu y nodyn hwn, ond ceisio taflu awgrym allan i'm brodyr yn y ffydd, gan hyderu y cymmerir hi i fyny, os nid gan yr oll, o'r hyn lleiaf, gan rai o'n cynnulleidfaoedd yn Nghymru. Fe wyr y sawl ydynt yn gyfarwydd â gweithiau Dr. Martineau, fod y pris yn lled uchel—yn ormod felly, mi wn, i lawer o'n gweinidogion allu fforddio eu prynu. Pris y gyfrol olaf yw pedwar swllt ar ddeg. Fy awgrym yw hon—ai nid yw yn bossibl i ni, fel cynnulleidfaoedd, ddangos ein hedmygedd o sel a ffyddlondeb ein gweinidogion, y rhai sydd wedi ein gwasanaethu am gyflogau bychain, yn treulio ac yn ymdreulio yn y gwaith da—rai o honynt am flynyddau meithion, trwy wneuthur anrheg iddynt o holl weithiau y duwinydd enwog hwn? Mae yn sicr genyf y byddai anrheg o'r fath yn fwy derbyniol gan y rhan amlaf na phe rhoddid hi mewn arian. Yr wyf wedi bwriadu lawer tro ysgrifenu gair ar y pen hwn i'r Ymofynydd, ond teimlad gwylaidd o fy anallu at y gorchwyl a barodd i mi fod yn ddystaw hyd yn awr. Wel, dyna'r awgrym o'ch blaen chwi o'r diwedd. Cymmerwn hi fyny, a gweithredwn arni.

C. Jones.

Y DEON PERO WNE AG ESGOBAETH BANGOR.

Pan y mae swydd bwysig yn myned yn wag, ceir llawer o ddyfalu pwy gaiff yr anrhydedd o'i llanw, ac yn ddiau fod llawer o

dynu ar y "gwifrau dirgel" tuag at roddi cyfeiriad i lygaid y cyfryw a ddaliant y rhodd. Awgrymir hwn ac arall, a gwneir hyny yn fynych gyda bwriad. Budd a lles personol oeddynt y cymhellyddion cryfaf yn llywyddu'r *presentations* yn y gorphenol. Math o bwrcasiad teuluaidd oedd yn fynych. Math o farchnata ar eiddo, yn yr ystyr o *quid pro quo*. Ond y mae bellach newid wedi cymmeryd lle. Ceir yn awr beth sylw ar gymhwysderau. Nid *degree* o Rydychain a Chaergrawnt chwaith yw y cymhwysder arbenig ar gyfer bod yn Esgob yn Nghymru heddyw. Mae yr heu Gymraeg, y ffaith fod Cymro yn Gymro, yn dechreu tynu sylw, a'r cymhwysder arbenig at fod yn esgob i Gymry ydyw deall Cymraeg. A diolch i ben a chalon y Deon Perowne am gydnabod y ffaith, a gwrthod y swydd *am nad yw* yn deall Cymraeg. Cydnebydd pawb ei fod yn meddu pob cymhwysder arall. P. P.

Y PARCH. "TOMOS GLYN COTHI" (1769—1833).

Yn ei gyfres ddyddorol o erthyglau ar "Lenyddiaeth y Gymraeg" yn *Y Geninen* y mae Llew Llwyfo yn syrthio i wall mewn cyssylltiad a'r enw uchod. Yn ei sylwadau ar *Y Cylchgrawn* neu *Y Geirgrawn Cymreig*, y ceisiwyd ei sefydlu yn Nghaerlleon yn 1796, dan olygiaeth y Parch. D. Davies, Treffynnon, ceir y geiriau hyn:—"Cafodd ellyll mall Gormes y llaw uchaf ar fardd a ysgrifenodd gân i'r *Geirgrawn*. Oblegyd can wleidyddol o'r eiddo, yn yr hon y condemniai rai o weithredoedd y Llywodraeth ar y pryd, cymmerwyd Tomos Glyn Cothi i'r ddalfa; cafodd ffug o brawf gerbron ynadon lleol; dedfrydwyd ef i ddeuddeng mis o garchariad yn Nghaerfyrddin, a gorfodwyd ef i ddyoddef arteithiau anaele y cyffion *(stocks)* ddwy waith mewn cospedigaeth am ei gân wleidyddol!" Mae y Llew hynafol yn tynu ar ei ddychymyg barddonol yn y dyfyniad uchod, ac nid yn ysgrifenu hanes. (1) Nid eiddo Tomos Glyn Cothi yw y gân yn *Y Geirgrawn*, ond eiddo Iolo Morganwg wrth bob tebyg. (2) Nid yw y Llew wedi gweled y gân yn *Y Geirgrawn*, neu ni fyddai achos iddo ddywedyd ei bod yn "condemnio rhai o weithredoedd y Llywodraeth ar y pryd." Cân Rhyddid yw, a chyfieithad o'r un a ganai milwyr Ffrainc wrth fyned i'r frwydr—"Allonz enfans de la Patrie," &c. (3) Nid cael ei ddedfrydu i garchar am *ysgrifenu* cân a gafodd, ond am *ganu* cân. Gellir casglu oddiwrth hanes bywyd y Parch. Thomas Evans yn *Ngardd Aberdar* (1854), mai cân Seisnig Iolo Morganwg a ganodd, pedwerydd pennill yr hon a ystyrid yn deyrnfradol. Tebyg iawn mai am ganu hon y cyhuddwyd ef, ond tebycach mai canu ei "Gân Rhyddid" ei hunan a wnaeth—cân ar don *Marseillaise*. (4) Dedfrydwyd ef gan y Barnwr Llwyd (1797) i *ddwy* flynedd o garchariad, ac nid *i un*, fel yr awgryma'r Llew. Fe geir y tair cân yn argraffedig yn Yr Ymofynydd am Ebrill, 1888, t. 81—3.

T. C. U.

CYMMANFA GANU MERTHYR, ABERDAR, A GELLIONEN.

Syr,—Gan mai hwn, o bossibl, yw y cyfle olaf a gaf cyn dydd y gymmanfa i ddweyd rhywbeth o barthed iddi ar dudalenau Yr Ymofynydd, caraf wneyd ychydig sylwadau fel adolygiad ar y parotoadau ydynt wedi eu gwneyd eisoes, a chynnyg awgrym neu ddau am y dyfodol. Yn annybynol ar yr ysgolion canu ydynt wedi eu cynnal mewn cyssylltiad â phob capel, cynnaliwyd *rehearsal* gyffredinol yn Hen-Dy-Cwrdd y Cefn Llwn y Pasc, ac er fod y diwrnod yn ddiwrnod gwyl a thuedd yn ein dynion ieuainc i fyned oddicartref i fwynhau eu hunain mewn gwahanol gyfeiriadau, daeth torf luosog o gantorion yn nghyd, a gallaf ddweyd yn ddifloesgni fod y canu yn wir dda, a'r cwrdd yn llwyddiannus dros ben. Yr wyf yn dra diolchgar i'r holl gyfeillion am eu hymdrech i ddyfod mor gryno. Yr wyf wedi bod ddwywaith yn Ngellionen, ac yr wyf wedi fy synu yn fawr at ffyddlondeb y cantorion yno. Heidiant i'r ysgol gân o bellder mawr, dros fynyddau a gweunydd, a hyny ar yr hin mwyaf annymunol, ac mae eu canu yn dda, ac yn adlewyrchu clod ar eu harweinydd medrus. Cefais fy moddloni yn fawr y ddau dro. Carwn wasgu ar feddwl yr holl gantorion y pwys o geisio meistroli y program, fel y gallont, ddydd y gymmanfa, roddi y sylw mwyaf astud i mi, fel arweinydd. Bydded iddynt ddysgu y geiriau a'r tônau gystal ag y gallont, ac yna, byddwn yn sicr o gael cymmanfa lewyrchus. Yr wyf fi a'm cyfeillion yn y Cefn yn dymuno rhoi croesaw calonog i garwyr yr achos da, yn mhell ac yn agos, i bresenoli eu hunain yn ein cymmanfa eleni, a sicrhawn hwynt y gwnawn yr oll a fydd yn ein gallu i wneyd pawb yn gysurus. Gan ddymuno rhwydd hynt i'r gwahanol gorau, y terfynaf, &c.,

Cefn. D. Eiddil Jones.

CAPELYGROES, GER LLANBEDR.

Mr. Gol.,—Yn Yr Ymofynydd am Ebrill diweddaf, yn y "Manion," yr wyf yn cael y frawddeg ganlynol mewn cyssylltiad a *Building Fund* Capelygroes:—"Gobeithiwn nad yw ein brodyr Seisnig ddim wedi gwario arian mawr i brynu llinynau i ddyogelu eu llogellau." Nid myfi yw awdwr y frawddeg hon. I'm tyb I, mae rhywbeth yn ei swn hytrach yn anserchog a chwta, yr hyn a ddymunwn ochelyd ar hyn o bryd pan yn myned oddiamgylch â'm het yn fy llaw. Gwn, yn hytrach credaf na olygai yr awdwr ddim ond daioni i'r gynnulleidfa a minau, ac y dymunai fod mwy o danysgrifiadau Seisnig yn dyfod i law er ein cynnorthwyo i fyned yn mlaen â'r adeiladaeth nag oedd y pryd hwnw. Nid yw begerddyn i ddysgwyl y caiff roesawiad yn mhob drws, ac yn enwedig pan yn myned allan o'i gymmydogaeth, ond y mae gobaith yn dal ei yspryd i fyny ac yn dweyd wrtho fod yn rhaid wrth amynedd a dyfalbarhad mawr yn y gwaith hwn. Gwir mai anaml y mae ein

happêl hyd yn hyn wedi cael gwrandawiad gan Undodiaid cyfoethog Lloegr; ond chwareu teg iddynt, y maent cyn hyn wedi bod yn garedig iawn i Undodiaid Cymru mewn llawer achos. Wedi cael ychydig seibiant i anadlu, yr wyf yn hyderus y deuant etto i'n cynnorthwyo yn Nghapelygroes os bydd angen hyny. Iawn i ni wneuthur ein goreu gartref, ac nid ydym wedi bod ar ol ychwaith. Hefyd, mae y cynnull-eidfaoedd Undodaidd ereill yn Ngheredigion a Morganwg wedi cydymdeimlo yn sylweddol â ni yn ein hanturiaeth. Diolch yn fawr iddynt. Er nad yw nifer ein tanysgrifwyr yn Lloegr yn *aml*, y mae rhai o honynt wedi cyfranu yn dda—David Price, Yswain, Llundain, £100; Miss Sharpe, etto, £20; Liverpool Fellowship Fund, £5. Yr ydys wedi cael addewidion da o ddau neu dri o fanau ereill. Cyfrifir yn y diwedd am bob ceiniog a dderbynir, ac anfonir copi argraffedig o'r gydroddres i bob tanysgrifiwr. Yr eiddoch, &c.,

Ebrill 17, 1890. T. Thomas.

YMWELIAD A'R AMERIG.

Y PAROTOAD A'R CYCHWYN.

Cyn cychwyn i wlad bell a dyeithr y mae cryn dipyn o amser yn ofynol i barotoi llawer o bethau a fyddant yn angenrheidiol ar y daith a thra yn aros yn mhlith dyeithriaid fel ymwelwyr—mewn gwisgoedd yn fwyaf neillduol, a hyny yn enwedig os bydd hinsawdd y wlad yn wahanol—yn oerach neu yn dwymach; ac y mae yr Amerig bob un o'r ddau. Cawsom gynghor caredig gan gyfeillion a wyddent drwy brofiad beth ydyw trafaelu dan amgylchiadau cyffelyb. Yr oeddwn yn awyddus iawn am daclu pob peth a chael fy *riggio* i fyny yn *tip top*, fel y dywedir! Bum yn ffortunus i gael ymweliad oddiwrth y brawd Fisher yn y cyfnod hwn, ac yr oeddwn yn hyderu y byddai ei help ef yn wasanaethgar i'r perwyl hwn. A rhyfedd y siopa, a'r bargena, a'r prynu a fu am ryw bythefnos neu dair wythnos! Gallesid tybied fy mod yn myned ar daith am flwyddyn, neu yn *round* i'r byd neu dros fywyd! Ni fu mwy o ffwdan a helynt i barotoi *expedition* i'r *North Pole* neu i berfedd Affrica! Yr oedd Fisher wedi bod yn y *trade*, ac wrth gwrs, yn hollwybodol yn mhob cangen! Fe ddywedir mai hen leidr wnaiff y *policeman* goreu yn y byd! Gan hyny, yr oeddwn yn hollol ddyogel rhag cribddail y siopwr dan lywyddiaeth Fisher! Yr oedd ef wrth law yn mhob bargen â'i spectol ar ei drwyn, a golwg bwysig a dysgedig iawn arno, yn teimlo'r stwff i gael sicrhau ei fod y *quality* goreu, ac yn edrych yn graffus i fewn i geisio datguddio dirgelwch *private marks* y prisiau, a theimlwn yn hyderus nad oedd yn bossibl i'r cribddeiliwr cywreiniaf *cheato* a chwareu *tricks* y *trade* dan ei arolygiaeth ef! Ond cefais droedigaeth ddisymwth ar ol dychwelyd, pan oedd y biliau yn dylifo i fewn un ar ol y llall mewn gorymdaith ddidor braidd

a phan welais eu cyfanswm ofnatsan! Ceisiwn berswadio fy hun fod yr un *items* i lawr fwy nag unwaith, neu fod rhyw *mistake* yn yr *addition* yn rhywle. Ond ar ol *addo* i fyny ac *addo* i waered, methais â chael allan gymmaint ag un camsyniad. Syrthiodd Fisher amryw raddau yn fy marn fel prynwr, beth bynag oedd fel gwerthwr, a drwg genyf hyspysu darllenwyr YR YMOFYNYDD, ac yn enwedig gynnulleidfa Gellionen, fy mod yn credu llai yn ei hollwybodolrwydd a'i anffaeledigrwydd yn awr nag oeddwn flwyddyn yn ol! Ond tigon tebyg mai diffyg addysg ydyw, ac fod rhan o'r bai ar ysgwyddau meistr yr *establishment* yn Mount Pleasant Garden, am nad yw yntau ddim yn hyddysg yn *tricks* y *trade*, fel y maent yn cael eu harfer gyda ni yma yn Mhrif Ddinas y Gogledd. *Moral*—"Where ignorance is bliss, 'tis folly to be wise."

O'r diwedd, dyma yr 8fed o Awst—dydd y cychwyniad. Daeth amryw o'm cyfeillion mynwesol gyda mi i'r *landing stage* er mwyn dymuno llwyddiant a *bon voyage*. Efallai mai dyma y tro diweddaf y gwnaent ysgwyd llaw â Tomos Llwyd am byth yr ochr hyn i'r tonau—tonau y weilgi yn gystal â thonau'r afon, dyfroedd yr hon na ddichon neb ymdeithwyr eu hadgroesi. O bossibl, y môr wnai fy nghymmeryd, neu y cawn fy *scalpio* gan ryw anwar gwyllt! Be' wyddys, rhyw genedl ddibris iawn ydyw'r Americaniaid yn ol pob hanes! Daeth y brawd Fisher ac un arall efo mi ar y *tender* nes cyrhaedd bwrdd y llong a'm gweled yn sâff yn y cabin neu y *state-room* fel ei gwelir. Ysgolor yn fy nosparth yn yr Ysgol Sul oedd hwn, ac y mae yn haeddu y teitl o "ddysgybl anwyl," am ei ofal am y *luggage*, y *Saratoga trunk*, a'r *portmanteau*, y *deck-chair*, a *rug*—pethau anhebgorol i fordaith gysurus. Yr oedd ef yn hen fordwywr, wedi croesi y cefnfor lawer gwaith ei hun, ac yr oedd yn awyddus iawn i'm gwneyd yn gartrefol yn "nghastell y dyfnfor." Rhoddodd i mi bob math o gynghorion sut i wneyd a pha feddyginiaeth i'w gwcinyddu os dygwyddai i mi gael fy nghymmeryd yn sâl gan "ddolur y môr"—*mal de mer*—clefyd ag sydd yn goddiweddyd naw o bob deg a rhagor o fordeithwyr. Rhagor am y clefyd hwn maes o law!

Y *Royal Mail Steam Ship Catalonia* ydyw'r llong, yn perthyn i'r *Cunard Line*, Cadben Atkin. Golygfa hardd ydyw gweled un o'r llongau mawrion hyn yn barod i gychwyn—yn gorwedd fel alarch ar y werdd-don; y banerau yn chwyfiaw o'r hwylbreni, yn llawn ymfudwyr—rhai yn *promenado* ar y *top deck* ac ereill yn syllu dros yr ochrau, y mwg yn *ddu*—nid yn *wyn*, fel y dywed Daniel Ddu oedd yn codi o simneiau bythod Sir Aberteifi—ac yn *ddu iawn* hefyd, yn codi o'r *funnels*, yn arwydd fod yr ymgyrch gerllaw, ac fod yn rhaid bod yn barod ar gyfer y gwaethaf. A'r *crew* o honynt hwythau yn llawn bywyd a gwaith, fel pe yn parotoi i gyfarfod â rhyw elyn anweledig. Nid yw y *Catalonia* yn un o'r rhai mwyaf nac ychwaith yn un o'r rhai cyflymaf. Ond y mae yn llestr cadarn iawn ac yn *behavio* yn gampus, fel y dywed y morwyr. Mae Cwmni y Cunard yn ymffrostio yn y ffaith na ddarfu iddynt erioed golli un bywyd, ac y maent yn cludo miloedd ar filoedd o ymfudwyr bob blwyddyn. Yr oeddem ni yn nghylch 500 ar ei bwrdd yn ystod y fordaith hon—rhyw 150 o *saloon passengers*, a'r

gweddill yn *steerage*, a'r *crew*. Yn fuan iawn yr ydym yn teimlo gartref ac mor ddyogel ynddi â phe baem ar dir.

Er nad yw o'r mwyaf, y mae yn llestr o gryn faint—yn fwy, er enghraifft, nag un a ddaeth i fewn i borthladdoedd Ceinewydd ac Aberayron erioed! Gellid tynu cymhariaeth nid pell o'r gwir, pe baem yn dweyd fod cymmaint o wahaniaeth rhwng y *Catalonia* a'r llong fwyaf sydd yn Aberayron ag sydd rhwng y diweddaf a chwch bach Dafydd Parkybeili! Dyna rhyw ddychymyg i'ch darllenwyr beth ydyw maint y llongau hyn. Wel, yn un o'r fath y mae rhaid i mi wneyd fy nghartref am y 9 neu 10 diwrnod nesaf, nes cyrhaedd Boston. Y mae y rhai cyflymaf yn cyrhaedd New York dan 7 diwrnod. Os â dyfais a chelfyddyd yn y blaen fel y maent yn bresenol, heb fod yn faith, byddwn yn alluog i gychwyn o L'erpwl foreu dydd Llun, a chyrhaedd New York neu Boston erbyn nos Sadwrn. Os wyf yn cofio yn iawn, yn ol stori fy nhadcu—un da godidog am stori oedd ef—treulient wythnos gyfan, yn ei gof cyntaf ef, i fyned o Ddyffryn Aeron i Lundain. Cof genyf dreulio llawer awr ddyfyr o amgylch y tan yn y gauaf pan yn hogyn yn Felinfach i glywed Siencyn ap Ruffydd, *postmaster* Talsarn yn awr, yn adrodd yr anturiaethau a'r peryglon fyrdd ag oedd yn nglyn â siwrnai i Lundain yn y dyddiau gynt. Gyda'r *mail coach* yr aent y pryd hwnw, neu ar draed, a chael ambell i *lift* gan *gart* neu gerbyd a fyddai yn myned yn eu ffordd. Storiau am yr *highway-men* oeddynt y mwyaf hudol i ni fel plant. Yr oedd Siencyn weli bod yn Llundain lawer tro, ac efe oedd y mwyaf dysgedig yn y gymmydogaeth nesaf at *Principal* y *Vale of Aeron Academy*, a'r Parch. —Davies, Treberfedd, o Goleg Ruydychain. Credem bob gair a ddywedai Siencyn, beth bynag am ystoriau fy nhadcu! Adroddai yn y fath fodd ag i'n gwneyd ni fel plant i ddychymygu fod yr hanner cant llath ag oedd gan Saunders Davies, a minau, i fyned tuag adre' braidd yn hanner cant milldir, ac yn frith gan *highway-men!* Yna, ofnem gyffro o'r tŷ, ac yr oedd yn rhaid i ni dryblu Cati, druan, i ddyfod i'n hebrwng! Gorfodem iddi aros ar y drws yn nyfnder y gauaf a'r gan wyll yn ei llaw i'n goleuo hyd nes y byddem wedi croesi yr afon a chyrhaedd trothwy yr *Ivy!* Heddwch i'w llwch! Wel, rhyfedd fel y mae'r byd yn cyfnewid! *Tempora mutantur, nos et mutamur in illis.* Er gwell neu er gwaeth ydym *ni?* Tybia llawer mai er gwaeth y mae'r byd yn cyfnewid. *The good old times* yw eu llef hwy, ac y maent yn hiraethu am oes euraidd eu cyndeidiau. Ofer fydd ceisio gan y cyfryw gydymdeimlo â mi yma yn L'erpwl, a llai fyth fydd iddynt werthfawrogi tymher yr Americaniaid am fyned rhag eu blaen mewn cynnydd a gwareiddiad. Un o ddau effaith, debygaf, fyddai ymweliad ag America ar y cyfryw; cadarnhad yn eu barn fod y byd yn myned ar garlam wyllt i ddinystr, neu droedigaeth hollol, a pheru iddynt gredu fod y byd yn myned ar gynnydd cyflym a di-droi-yn-ol, o'r gwael at y gwell, ac o'r gwell at y goreu a'r perffaith yn y pendraw, ac fod yr oes euraidd, am yr hon y mae beirdd wedi canu fel pe wedi pasio yn moreu oes y byd, etto i ddod—yn y dyfodol

pell, efallai; ond i ddod, er hyny. Dyma fel y dywed y bardd Americanaidd :—

Ah before us lies the way,
Give the past into the wind;
Ah before us is the day,
Night and darkness are behind.

[Gwel Emyn 176 yn nghasgliad Martineau.]
Dyma yn canlyn rhyw efelychiad anmherffaith iawn o'r dychymyg.

Hen Eden baradwysaidd lân a'i diniweidrwydd pur,
Yn llifo o bob dedwyddwch heb ofnau, poen, na chur;
Nid hanes yw am hyn *a fu* yn mebyd dynolryw,
Ond proffwydoliaeth un *a fydd* ryw ddydd yn nghynghor Duw.
Dros yr holl ddaearen faith o'r Gogledd bell i'r De,
O'r Dwyrain i'r Gorllewin dir, pob iaith, pob llwyth, pob lle;
Pan dyfo dyn i'w gyflawn faint yn berffaith fel y Tad,
O'r Nef 'nol gradd ei natur wan ni bydd mewn bron un brad,
Ond cariad a brawdgarwch cun, fel toa'r dwr y môr,
A ffynant rhwng holl blant y byd 'nol 'wyllys bur yr Ior;
Rheola yspryd Dwyfol Nen yn rhwydd pob enaid byw
Yn un byd—dae'r a nef—a dyn yn llawn cyflawnder Duw.

L'erpwl, Ebrill 23. LLWYD.

Y MAE dwy ffordd i addoli, ebe'r Parch. J. S. Boucher, Bury St. Edmunds—un fod Duw yn bresenol a'r llall nad yw. Deil yr Eglwys wrth y gyntaf ac Annghydffurfiaeth wrth y llall. Yn y ty cwrdd Annghydffurfiol nis gallai fod addoliad, oblegyd cael lle i eistedd a'i gael yn rhad yw anhepgorion yr adeiladau hyny, yn debyg i farilau lle y pynorir (*pack*) nifer o sgadan ar gyfer marchnad, &c., &c. Dyma fel y mae apostolion yr Eglwys Wladol yn ceisio "cadw undeb yr yspryd."

Manion ac Hanesion.

ABERDAR.—Da genym ddeall fod y Parch. W. Copeland Bowie wedi bod ar ymweliad â'r lle hwn yn ddiweddar, ac wedi bod yn offerynol i agor y capel Seisnig, yr hwn a fu yn nghau am tua wyth mlynedd. Hyderwn fod dyfodol teg o flaen y gynnulleidfa sydd newydd ei ffurfio, ac yr ä "y fechan yn fil, a'r wael yn genedl gref."

RHYDYGWIN.—Cynnaliodd Ysgol Sul y capel uchod ei Gwyl De flynyddol ar yr 21ain o Ebrill, pryd yr oedd yn gwasanaethu wrth y bwrdd y boneddigesau canlynol:—Mrs. Hughes, Rhydyfydir; Mrs.

Jones, Cwmysgawen ; a Mrs. Davies, Penybwlch, yn cael eu cynnorthwyo gan Miss Evans, Rhydyfydir, y ddwy Miss Davies o Penybwlch, Mrs. Jones, *Post Office*, a Miss Jones, Cwmysgawen. Yr oedd darpariadau helaeth wedi cael eu gwneyd ar gyfer y wledd hon. Nid yw ond teg i ni ddywedyd fod y tê a'r bara brith, yn ol yr hyn wyf wedi glywed, yn well nac a brofwyd er ys tro; ac yr wyf yn sicr na ddarfu i'r plant fwynhau gwell prydnawn er's llawer dydd. Am ychydig wedi chwech o'r gloch yn yr hwyr, cafwyd cwrdd llenyddol ardderchog yn y capel. Cymmerwyd y gadair gan y Parch. W. Rees, gweinidog y lle. Arweinydd y cyfarfod oedd Mr. David Saunders Davies, Felinfach, yr hwn a aeth trwy ei waith mewn modd canmoladwy iawn. Yr oedd y program yn cael ei wneyd i fyny o ddarlleniadau, adroddiadau, *solos*, *duetts*, a thônau gan y cor. Rhoddwyd gwobrwyon i lawer am y darlleniad goreu ar y pryd. Bu y Parch. B. Carolan Davies, Ty'nygwndwn, mor garedig a bod yn feirniad, ac aeth trwy ei waith yn ddeheuig iawn. Yr oedd y rhan gerddorol o'r cyfarfod yn cael ei gario yn y blaen o dan arweiniad medrus Mr. Dd. Hughes, Rhydyfydir. Y mae clod a diolchgarwch yn ddyledus i bawb am wneuthur y cyfarfod yn llwyddiant perffaith yn mhob ystyr. Ac er fod pawb, fe ddichon, wedi gwneuthur eu rhan, nid allaf lai nag enwi un person ar ben ei hun, a hwnw yw Mr. David Davies, Felinfach. Y mae ei sel a'i frwdfrydedd bob amser dros yr Ysgol Sul, a'i amynedd dros y plant, yn deilwng o'r diolchgarwch mwyaf allwn roddi iddo. Carem weled ereill yn ei efelychu yn y ffordd hon.

Yr wyf wedi bod yn falch erioed fy mod wedi dewis gweinidogaeth Efengyl Crist fel gorchwyl fy mywyd. Mae fy ngwaith wedi bod yn llawenydd i mi yr holl ffordd. Nis gallaf amgyffred am un alwad arall lle mae'r mwynderau ardderchocaf mor lluosog a'r *drawbacks* mor ychydig.—*H. W. Beecher.*

Mae y Dr. Oliver Wendell Holmes yn synu sut y gall un fenyw fyw yn y blaned Sadwrn. Nid oes yno yr un *looking-glass* i gael. Nid oes yno damaid o ruban; ac y mae gwisgoedd pawb o un lliw. Gellir meddwl fod y Doctor doniol wedi bod yno.

GOFID.

Mi welais ddau'n ymaelyd,
Mi welais gwympo'r gofyd,
Do, a'i daro ar ei drwyn,
A ffaelu dwyn ei fywyd.

[O lawysgrifau annghyoeddedig Iolo Morganwg.]

Pan ddarllenodd y Dr. Lewis Edwards o'r Bala adolygiad Vulcan ar ei lyfr ar yr Iawn, ac y gwelodd mor deg a boneddigaidd oedd, rhoddodd ddatganiad i'r ymadrodd "fod Vulcan yn foneddwr a dywedyd y lleiaf.' Ni fyddai niwed yn y byd *pe gellid* dywedyd yr un peth am rai heblaw.

Yn Yr Ymofynydd am 1885, tudalen rhoddir "Agoriad Byr ar Weddi yr Arglwydd." Yn *Y Geninen*, am Ebrill, 1890, rhoddir y gwreiddiol yr hwn a briodolir i Richard Bernard, 1641. Barna D. S. Davies, Caerfyrddin, *from internal evidence*, mai Eglwyswr oedd y cyfieithydd. *Query.* Ai Peter Williams oedd? Seilia Davies ei resymau ar y geiriau, "*Deued* dy deyrnas, *Bydded* dy eswyllys," ac y mae yn dangos cryn gywreinrwydd a dywedyd y lleiaf. Pwy oedd Richard Bernard? Ai Rector Towcester oedd?

Y GOG.

Mor ber, mor fwyn, mor swynol,—yw acen
Y gwcw wefreiddiol;
A'i dau nod annewidiol,
D'wed i ni ei dod yn ol.—*Clwydfardd.*

Marwgofion.

Mewn hiraeth dwfn y dymunaf gofnodi am farwolaeth Mary, priod Mr. John Rees, Godreu'rglyn, gynt o Tanyfoel, Pencarreg, Lampeter. Yr oedd yr ymadawedig wedi cael ei chyfyngu i'w gwely am yn agos i bedair blynedd cyn ei hymadawiad â'r byd gweledig am y byd anweledig. Dydd Mawrth, y 7fed o Ionawr, bu farw pan bron cyrhaedd ei 63 mlwydd oed. Cafodd gystudd caled yn

flaenorol am rhyw dair blynedd, a dyoddefodd y cyfan yn dawel a siriol. Y dydd Gwener canlynol, rhoddwyd ei gweddillion i orwedd yn Mynwent Brondeifi, yn ochr ei hunig fab, yr hwn a gladdwyd rhyw naw mis o'i blaen. Gweinyddwyd yn ei hangladd gan y Parchedigion R. Jones, Llanbedr, yn y tŷ; D. S. Evans, Cribin, yn y capel; a J. Davies, Alltyplaca, ar lan y bedd. Heddwch i'w llwch, a Duw y nawdd a'r heddwch fyddo yn nodded ac yn gysur i'w phriod yn ei adfyd.—*John Rees, Llwynglas.*

Chwefror 17, yn 70 oed, Elizabeth Lloyd, Ceginan, gweddw y diweddar John Lloyd, Rhydyceir. Claddwyd hi y dydd Iau canlynol yn Mhantydefaid Pregethodd y Parch. T. T. ar yr achlysur.

Chwefror 20, yn Mhwllgrafel, ger Pantydefaid, John, mab an John ac Elizabeth Jones, o'r un lle. Claddwyd y bychan yn Mynwent Pantydefaid, pyrnawn y dydd Sadwrn canlynol. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan y Parch. T. T.

Dydd Sadwrn, Chwefror 22, yn 85 oed, Sarah, gweddw y diweddar Evan Jones, gof, Cwmpib, ger Cribin. Claddwyd hi y dydd Mawrth canlynol yn Nghapelygroes, a gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. J. D. Traddodwyd y bregeth angladdol yn Ysgoldy Llanwnen, y 9fed o Fawrth ar ol hyny, gan y Parch. T. T. Yr oedd yr ymadawedig wedi bod yn orweid llog am flynyddau lawer, ond yn hynod foddlongar ei chyflwr dros yr holl amser. Un ddiniwed iawn ydoedd, a gair da iddi gan bawb a'i hadwaenai.

Chwefror 28, bu farw Jane Evans, Penlon, Cribin, yn 76 mlwydd oed. Yr oedd yn un o'r aelodau henaf yn y Cribin, a thra y parhaodd ei gallu, bu yn aelod ffyddlon. Daeth tyrfa luosog yn nghyd y dydd Mawrth canlynol i heb wng ei chorff i Fynwent Capelygroes. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan D. E., Cribin.

Mawrth 18, yn 81 mlwydd oed, David Jonathan, Ffwrneithin, ger Mydroilyn. Yr oedd yr hen dad hwn yn adnabyddus trwy Gymru a Lloegr. Yr ydoedd yn un o'r *catt e dealers* mwyaf yn y wlad, a bu yn llwyddiannus iawn yn ei alwedigaeth. Y mae rhai o'i blant etto wrth yr un gwaith. Y dydd Llun canlynol, daeth yn nghyd i'w angladd dorf anferthol o bobl o bell ac agos ar feirch, mewn cerbydau, ac ar draed, i'w hebrwng i'w fedd yn Mynwent Dihewid. Er gwlaw trwm a gwynt ystormus, dywedid na welwyd gorymdaith angladdol gymmaint ei maintioli yn y wlad o gwmpas erioed. Dechreuwyd y gwasanaeth yn y tŷ gan y Parch. W. Rees, Rhydygwin, a phregethwyd gan y Parch. T. T., Pantydefaid a Chapelygroes. Digon hyn i dystiolaethu mai Undodwr ydoedd o ran ei farn grefyddol. ac yr oedd ei dad o'i flaen yn coleddu yr un syniadau, ac yn un o sylfaenwyr yr achos Undodaidd yn Nghapelygroes a Rhydygwin.

Mawrth 14, yn 32 mlwydd oed, Mr. David Evans, *ironmonger*, Ferndale, Mor. ganwg, a mab Mr. David Evans, adeiladydd, Llwynbedw, Llanwenog, Sir Aberteifi. Claddwyd ef ar y 19eg, yn ol ei ddymuniad, yn Mynwent Alltyplaca, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y gweinidog. Gadawodd ein cyfaill ieuanc briod, rhieni, brodyr a chwiorydd i alaru ar ei ol. Na foed iddynt alaru fel rhai heb obaith, eithr bydded ei symmudiad cynnar ef yn gymhelliad cryf iddynt ymawyddu am gymhwysder i fyned i'r wlad well, lle nad oes ymadael mwy.—J.D.

Mawrth 20, bu farw Hannah May, yn 8 mis oed, yn Luzerne County, Pennsylvania. Yr oedd y fechan yn ferch i John a Gwenllian Jones, y rhai a ymfudasant i America o Aberdar tuag wyth mlynedd yn ol. Adnabyddwn ei rhieni fel y canlyn:—Mae ei thad gofalus yn fab i John Jones, crydd, Tynycelyn, ger Llanwnen, Ceredigion, a'i mam bryderus yn ferch i Jenkin a Margaret Llewelyn, Pantyscawen, ger Aberdar—teulu parchus a ffyddlon yn yr Hen-Dy-Cwrdd, yn mha le yr ymaelodai rhieni y fechan pan yn y wlad hon. Bydded i'w thad a'i mam gael nerth Tad y trugareddau i ysgafnhau eu teimladau ar ol y fechan, er yn ieuanc, ond etto yn un o'r teulu. Bydded iddynt gofio mai ewyllys Duw a gyflawnwyd, ac eiddo y cyfryw rai yw teyrnas nefoedd. —*Dewi Mai.*

Mawrth 24, yn 6 mlwydd oed, Evan, mab Thomas a Mary Jones, Cwrtygwybed, Llandyssul. Claddwyd y bychan y Mercher canlynol yn mynwent newydd y Llwyn. Pregethodd y Parch T. T. ar yr achlysur.

Jenkin Howell, Argraffydd, &c., Aberdar.

GEORGE'S POPULAR REMEDIES.

AT Y CYHOEDD.

Erfynir arnom yn fynych i roddi hysbysrwydd o'r holl Ddarpariaethau Meddyginiaethol a wneir genym. Wele yn canlyn *list* o'r prif rai :—

GEORGE'S PILE AND GRAVEL PILLS. Y mae y Feddyginiaeth hon yn rhy adnabyddus drwy yr holl fyd i alw am ragor o hysbysrwydd yma. Digon yw dweyd fod "Dr Quain's Dictionary of Medicine"—y llyfr meddygol pwysicaf a ddaeth allan o'r wasg ericed, heddyw, yn cydnabod mai yr egwyddor fawr ar *yr hon y mae y Feddyginiaeth uchod yn sylfaenedig*, yw yr unig wir egwyddor yn ol pa un y dylid trin holl ddoluriau perthynol i'r Ymysgaroedd, yr Arenau, y Cylla, a'r Afu Yr ydym yn gwneyd y ffaith bwysig hon yn hysbys fel ag i wneyd pawb sydd yn defnyddio y Peleni bydenwog hyn deimlo yn sicr eu bod yn chwilio am wellhad ar linellau ag y mae perffeithrwydd Celfyddyd Feddygol yr oes hon yn gymmeradwyo a'i orchymyn.

—o—

GEORGE'S AMERICAN RHEUMATIC LINIMENT, neu "*American Marvel.*" Hon ydyw y Ddarpariaeth fwyaf poblogaidd yn yr holl fyd at y Gryndod, Lumbago, Sciatica, Cymalau Stiff, Cramp, Stiff Joints, Chwyddiadau, Clwisiau, Ysigiadau, Dolur y Gwddf, Quinsy, Gwendid yn yr Aelodau, Inflammation, a holl boenau *ileol* ereill.—*Mewn poteli*, 1/9 *a* 1/1½ *yr un. Drwy y Post*, 2/- *a* 1/4.

—o—

GEORGE'S STOMACH AND LIVER TONIC.—Yr ydym yn gwneuthu y gwna y Feddyginiaeth hon Awchu y Cylla at Fwyd, Cynhorthwyo Treuliad Bwyd, Pubo y Gwaed, Creyfhau'r Gewynau, Sirioli'r Ysbrydoedd, Addfedu ac Ardlwyn pob Hylif Afiach a Llysnafeddog o'r Corff.—*Mewn poteli*, 2/9 *yr un. Nis gellir ei ddanfon gyda'r Post.*

—o—

GEORGE'S TIC MIXTURE.—Symmuda hwn y dolur a elwir Tic, (neu Tictolorw) a'r Rheums mewn ychydig oriau.—*Mewn poteli*, 1/9 *a* 2/9 *yr un. Nis gellir ei ddanfon gyda'r Post.*

—o—

GEORGE'S CAMBRIAN TONIC VOICE LOZENGES.—Nid oes eisieu ond enwi cefnogwyr y *Voice Lozenges* hyn er profi mai hwy sydd ar y blaen at Greyfhau a Pherffeithio y llais. Dyma ychydig o honynt :—Madame Edith Wynne, Dr. Parry, Owen Alaw, Eos Morlais, Llew Llwyfo, Jas. Sauvage, D. Jenkins, Mus. Bac., Jno. Thomas, Caradog, &c, &c.. *Pris* 6ch. *a* 1/-. *Gellir anfon y Bisch* 1/. *gyda'r Post am* 1/2 *mewn stamps.*

—o—

GEORGE'S CURE FOR BRONCHITIS.—Meddyginiaeth effeithiol at wella "Bronchitis." *Mewn poteli*, 2/6 *yr un. Nis gellir danfon hwn gyda'r Post.*

—o—

"FLATULINE."—Meddyginiaeth hynod effeithiol er symmud gwynt o'r cylla a'r ymysgaroedd. *Pris*, 1/1½ *a* 2/9 *y botel. Nis gellir ei ddanfon gyda'r Post.*

—o—

"ASTHMALINE."—Darpariaeth gwir werthfawr at ddiffyg anadl. *Pris* 1/9 *a* 2/9 *y botel. Nis gellir ei ddanfon gyda'r Post.*

—o—

"DR. CRYNANT'S PLASTER." (Established 40 Years.) Hwn ydyw y Plaster mwyaf hynod yr oes at wella Ysigiadau, Briwiau, Toriad Asgwrn, Clwyfau, Gwendid yr Aelodau, Lumbago, &c. *Mewn Packets*, 7½*c. a* 1/1½ *yr un. Fe'u danfonir drwy y Post am* 1/3 *mewn stamps.*

PERCHENOG :—

J. E. GEORGE, M.R.P.S.,

Hirwain.


INTERESTING FACTS FOR INVALIDS.
The experience of twenty years proves that no medicine for the cure of all the Disorders of the BOWELS, LIVER, KIDNEYS, and STOMACH will bear comparison with GEORGE'S PILE AND GRAVEL PILLS.
It is an important fact that these Remedies are patronised and highly recommended by EMINENT MEDICAL MEN, both in this country and America.
Many of the wealthy of the land give their time and money to supplying the afflicted poor in their neighbourhoods with these Pills. The fact speaks volumes in favour of these Pills.
Were all the Testimonials that have been received in favour of these Remedies printed, they would fill a volume of over a THOUSAND PAGES of the ordinary size.
There is not a civilized nation under the sun that has not experienced the HEALING VIRTUES of these Remedies. For many years they have held the FIRST PLACE in the world as a remedy for the above disorders.
It is the opinion of those best able to judge that a discovery of greater importance to suffering humanity than GEORGE'S PILE AND GRAVEL PILLS has not been made in this century.
THOUSANDS have been cured by these Pills, and TENS OF THOUSANDS relieved of their pains; and many who have been pronounced hopeless have been THOROUGHLY RESTORED TO HEALTH by their use.
Sold in Boxes, 1/1½ and 2/9 (By Post, 1/3 and 2/10) each, by all respectable Chemists.
IMPORTANT CAUTION.—BEWARE OF SPURIOUS IMITATIONS.